

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Hydref 11eg 2018

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CRhA Bro Alun ar Hydref y 10fed ac yn anffodus, dim ond nifer fechan o rieni a gwarchodwyr a fynychodd. O ganlyniad i hyn, ni allwyd ethol swyddogion a mae yna berygl felly y bydd rhaid dechrau ar y broses o ddiddymu y CRhA.

Mae'r CRhA wedi bodoli ers i'r ysgol agor a mae wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr ysgol drwy ddatblygu'r elfen gymdeithasol yng nghymuned yr ysgol yn ogystal wrth gwrs â chodi arian sydd wedi cael ei ddefnyddio i brynu adnoddau a talu am fysis i'r sinema ac ymweliadau addysgol ymysg pethau eraill. Gyda cyllidebau ysgolion yn cael eu torri'n flynyddol, mae'r elfen yma o waith y CRhA yn hollbwysig.

Oherwydd gofynion cyfreithiol y Comisiwn Elusennau, mi yden ni nawr o dan gyfyngiadau amser felly hoffem gynnal un cyfarfod arall i geisio sicrhau dyfodol y CRhA, cyn y bydd rhaid i mi adael y Comisiwn Elusennau i wybod nad oes CRhA yn bodoli yma bellach. Bydd y cyfarfod yma yn cael ei gynnal **nos Fercher, Tachwedd 7fed am 6:00pm** yn yr ysgol. Er mwyn ei gwneud yn haws i rieni fynychu, gallwch ddod â'ch plentyn efo chi a byddwn wedi gosod ardal fach iddyn nhw chwarae / lliwio tra bod y cyfarfod yn mynd ymlaen (dewch â teganau / llyfr lliwio ayyb efo chi).

Er mwyn medru sicrhau dyfodol y CRhA, anogaf cymaint ohonoch a phosib i fynychu gan fod y Gymdeithas a'i gwaith o fudd i'ch plant yn y pen draw. Mae mwy o wybodaeth am CRhA ar gael ar www.pta.co.uk a mae yna ychydig o wybodaeth am rai o'r swyddi i redeg pwyllgor fel un y CRhA efo'r llythyr hwn – ymddiheuriadau mai yn Saesneg yn unig y mae rhain ar gael.

Diolch yn fawr,

Osian Jones